

Sunday 10th August 2025
+ The Eighth Sunday after Trinity

The collect of the day

Almighty Lord and everlasting God, we beseech you to direct, sanctify and govern us in the ways of your laws and the works of your commandments; that through your most mighty protection, both here and ever, we may be preserved in body and soul; through our Lord and Saviour Jesus Christ, who is alive and reigns with you, in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

The reading from Genesis
(15.1-6)

The word of the Lord came to Abram in a vision, ‘Do not be afraid, Abram, I am your shield; your reward shall be very great.’

But Abram said, ‘O Lord God, what will you give me, for I continue childless, and the heir of my house is Eliezer of Damascus?’

And Abram said, ‘You have given me no offspring, and so a slave born in my house is to be my heir.’

But the word of the Lord came to him, ‘This man shall not be your heir; no one but your very own issue shall be your heir.’ He brought him outside and said, ‘Look towards heaven and count the stars, if you are able to count them.’ Then he said to him, ‘So shall your descendants be.’

And he believed the Lord; and the Lord reckoned it to him as righteousness.

The Psalm
(33.13-22)

The Lord looks / down from / heaven: and beholds / all the / children of / earth. From where he sits enthroned he / turns his / gaze: on / all who / dwell on the / earth. He fashions / all the / hearts of them: and under/stands / all their / works.

No king is saved by the / might of his / host: no warrior delivered / by his / great / strength. A horse is a vain hope / for de/liverance: for all its / strength it / cannot / save.

Behold, the eye of the Lord is upon / those who / fear him: on those who wait in / hope • for his / steadfast / love, To deliver their / soul from / death: and to / feed them in / time of / famine.

Our soul waits longingly / for the / Lord: he is our / help / and our / shield. Indeed, our heart re/joices / in him: in his holy name / have we / put our / trust. Let your loving-kindness, O Lord, / be up/on us: as we have / set our / hope on / you.

The reading from Hebrews
(11.1-3, 8-16)

Faith is the assurance of things hoped for, the conviction of things not seen. Indeed, by faith our ancestors received approval. By faith we understand that the worlds were prepared by the word of God, so that what is seen was made from things that are not visible.

By faith Abraham obeyed when he was called to set out for a place that he was to receive as an inheritance; and he set out, not knowing where he was going. By faith he stayed for a time in the land he had been promised, as in a foreign land, living in tents, as did Isaac

and Jacob, who were heirs with him of the same promise. For he looked forward to the city that has foundations, whose architect and builder is God. By faith he received power of procreation, even though he was too old – and Sarah herself was barren – because he considered him faithful who had promised. Therefore from one person, and this one as good as dead, descendants were born, ‘as many as the stars of heaven and as the innumerable grains of sand by the seashore.’

All of these died in faith without having received the promises, but from a distance they saw and greeted them. They confessed that they were strangers and foreigners on the earth, for people who speak in this way make it clear that they are seeking a homeland. If they had been thinking of the land that they had left behind, they would have had opportunity to return. But as it is, they desire a better country, that is, a heavenly one. Therefore God is not ashamed to be called their God; indeed, he has prepared a city for them.

The reading from the Gospel according to Saint Luke
(12.32-40)

Jesus said to his disciples: ‘Do not be afraid, little flock, for it is your Father’s good pleasure to give you the kingdom. Sell your possessions, and give alms. Make purses for yourselves that do not wear out, an unfailing treasure in heaven, where no thief comes near and no moth destroys. For where your treasure is, there your heart will be also.

‘Be dressed for action and have your lamps lit; be like those who are waiting for their master to return from the wedding banquet, so that they may open

the door for him as soon as he comes and knocks. Blessed are those slaves whom the master finds alert when he comes; truly I tell you, he will fasten his belt and have them sit down to eat, and he will come and serve them. If he comes during the middle of the night, or near dawn, and finds them so, blessed are those slaves.

‘But know this: if the owner of the house had known at what hour the thief was coming, he would not have let his house be broken into. You also must be ready, for the Son of Man is coming at an unexpected hour.’

The collect after communion

Strengthen for service, Lord, the hands that have taken holy things; may the ears which have heard your word be deaf to clamour and dispute; may the tongues which have sung your praise be free from deceit; may the eyes which have seen the tokens of your love shine with the light of hope; and may the bodies which have been fed with your body be refreshed with the fullness of your life; glory to you for ever. AMEN



Text from the Church in Wales – Word of the Lord 2011 copyright © Church in Wales Publications 2011. Collects and Post Communion Prayers from the book New Calendar and the Collects. Copyright © The Representative Body of the Church in Wales 2003 ISBN – 1853115495. Quotations and Psalms from The New Revised Standard Version (Anglicized Edition), copyright 1989, 1995 by the Division of Christian Education of the National Council of the Churches of Christ in the United States of America. Used as permitted.

Dydd Sul 10^{fed} Awst 2025

+ Yr Wythfed Sul wedi'r Drindod

Colect y dydd

Hollalluog Arglwydd a thragwyddol Dduw, deisyfwn arnat gyfarwyddo, sancteiddio a llywodraethu ein calonnau a'n cyrff yn ffyrdd dy gyfreithiau a gweithredoedd dy orchmynion; fel trwy dy noddod mawr, y cawn ein cadw'n gorff ac enaid yn awr ac am byth; trwy ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

Darlleniad o Genesis

(15.1-6)

Wedi'r pethau hyn, daeth gair yr ARGLWYDD at Abram mewn gweledigaeth, a dweud, "Nac ofna, Abram, myfi yw dy darian; bydd dy wobr yn fawr iawn."

Ond dywedodd Abram, "O Arglwydd DDUW, beth a roddi i mi, oherwydd rwy'n para'n ddi-blant, ac etifedd fy nhŷ yw Eleasar o Ddamascus?"

Dywedodd Abram hefyd, "Edrych, nid wyt wedi rhoi epil i mi; a chaethwas o'm tŷ yw f'etifedd."

Yna daeth gair yr ARGLWYDD ato a dweud, "Nid hwn fydd d'etifedd; o'th gnawd dy hun y daw d'etifedd."

Aeth ag ef allan a dywedodd, "Edrych tua'r nefoedd, a rhifa'r sêr os gelli." Yna dywedodd wrtho, "Felly y bydd dy ddisgynyddion."

Credodd Abram yn yr ARGLWYDD, a chyfrifodd yntau hyn yn gyfiawnder iddo.

Y Salm

(133.12-22)]

Gwyn ei byd y genedl y mae'r ARGLWYDD yn Dduw iddi, y bobl a ddewisodd yn eiddo iddo'i hun. Y mae'r ARGLWYDD yn edrych i lawr o'r nefoedd, ac yn gweld pawb oll; o'r lle y triga y mae'n gwyllo holl drigolion y ddaear.

Ef sy'n llunio eddwl pob un ohonynt, y mae'n deall popeth a wnânt. Nid gan fyddin gref y gwaredir brenin, ac nid â nerth mawr yr achubir rhyfelwr.

Ofer ymddiried mewn march am waredigaeth; er ei holl gryfder ni all roi ymwared. Y mae llygaid yr ARGLWYDD ar y rhai a'i hofna, ar y rhai sy'n disgwyl wrth ei ffyddlondeb, i'w gwaredu rhag marwolaeth a'u cadw'n fyw yng nghanol newyn.

Yr ydym yn disgwyl am yr ARGLWYDD; ef yw ein cymorth a'n tarian. Y mae ein calon yn llawenychu ynddo am inni ymddiried yn ei enw sanctaidd. O ARGLWYDD, dangos dy ffyddlondeb tuag atom, fel yr ydym wedi gobeithio ynot.

Darlleniad o Hebreaid

(11.1-3, 8-16)

Yn awr, y mae ffydd yn warant o bethau y gobeithir amdanynt, ac yn sicrwydd o bethau na ellir eu gweld. Trwyddi hi, yn wir, y cafodd y rhai gynt enw da. Trwy ffydd yr ydym yn deall i'r bydysawd gael ei lunio gan air Duw yn y fath fodd nes bod yr hyn sy'n weledig wedi tarddu o'r hyn nad yw'n weladwy.

Trwy ffydd yr ufuddhaodd Abraham i'r alwad i fynd allan i'r lle yr oedd i'w dderbyn yn etifeddiaeth; ac fe aeth allan heb wybod i ble'r oedd yn mynd. Trwy ffydd yr ymfudodd i wlad yr addewid fel

i wlad estron, a thrigodd mewn pebyll, fel y gwnaeth Isaac a Jacob, cydetifeddion yr un addewid. Oherwydd yr oedd ef yn disgwyl am ddinas ac iddi sylfeini, a Duw yn bensaer ac yn adeiladydd iddi. Trwy ffydd — a Sara hithau yn ddiffwrwyth — y cafodd nerth i genhedlu plentyn, er cymaint ei oedran, am iddo gyfrif yn ffyddlon yr hwn oedd wedi addo. Am hynny, felly, o un dyn, a hwnnw cystal â bod yn farw, fe gododd disgynyddion fel sêr y nef o ran eu nifer, ac fel tywod dirifedi glan y môr.

Mewn ffydd y bu farw'r rhai hyn oll, heb fod wedi derbyn yr hyn a addawyd, ond wedi ei weld a'i groesawu o bell, a chyfaddef mai dieithriad ac ymdeithwyr oeddent ar y ddaear. Y mae'r rhai sy'n llefaru fel hyn yn dangos yn eglur eu bod yn ceisio mamwlad. Ac yn wir, pe buasent wedi dal i feddwl am y wlad yr oeddent wedi mynd allan ohoni, buasent wedi cael cyfle i ddychwelyd iddi. Ond y gwir yw eu bod yn dyheu am wlad well, sef gwlad nefol. Dyna pam nad oes ar Dduw gywilydd ohonynt, nac o gael ei alw yn Dduw iddynt, oherwydd y mae wedi paratoi dinas iddynt.

Gwrandewch Efengyl Crist

yn ôl Sant Luc (12.32-40)

Peidiwch ag ofni, fy mhraidd bychan, oherwydd gwelodd eich Tad yn dda roi i chwi'r deyrnas. Gwerthwch eich eiddo a rhowch ef yn elusen; gwnewch i chwi eich hunain byrsau nad ydynt yn treulio, trysor di-hysbydd yn y nefoedd, lle nad yw lleidr yn dod ar y cyfyl, na gwyfyn yn difa. Oherwydd lle mae eich trysor, yno hefyd y bydd eich calon.

"Bydded eich gwisg wedi ei thorchi a'ch canhwyllau ynghynn. Byddwch

chwithau fel rhai yn disgwyl dychweliad eu meistr o briodas, i agor iddo cyn gynted ag y daw a churo. Gwyn eu byd y gweision hynny a geir ar ddihun gan eu meistr pan ddaw; yn wir, rwy'n dweud wrthyh y bydd ef yn torchi ei wisg, ac yn eu gosod wrth y bwrdd, ac yn dod ac yn gweini arnynt. Ac os daw ef ar hanner nos neu yn yr oriau mân, a'u cael felly, gwyn eu byd.

"A gwybyddwch hyn: pe buasai meistr y tŷ yn gwybod pa bryd y byddai'r lleidr yn dod, ni fuasai wedi gadael iddo dorri i mewn i'w dŷ. Chwithau hefyd, byddwch barod, oherwydd pryd na thybiwch y daw Mab y Dyn."

Defynddir gweddi ôl-ynghyd

Cyfnertia i wasanaeth, O Arglwydd, y dwylo a gymerodd bethau sanctaidd; bydded i'r clustiau a glywodd dy air fod yn fyddar i dwrw a dadl; bydded i'r tafodau a ganodd dy fawl fod yn rhydd o ddichell; bydded i'r llygaid a welodd arwyddion dy gariad lewyrchu â goleuni gobaith; a bydded i'r cyrff a borthwyd â'th gorff gael eu hadfywio â llawnder dy fywyd; gogoniant i ti am byth. AMEN



Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru. Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2011. Colectau a Gweddiâu Ôl-Gymun o'r llyfr Y Calendr Newydd a'r Colectau Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2003 ISBN – 1853115495. Dyfyniadau a Salmu trwy ganiatâd o'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004 Cymdeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl. Cedwir pob hawl.